

PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD 18 EBRILL 2016

Yn bresennol: Y Cynghorydd G. Thomas (Cadeirydd)

Cynghorwyr: S.M. Allen (Is-Gadeirydd), S.M. Caiach, I.W. Davies, T.T. Defis, W.T. Evans, H.I. Jones, D.J.R. Llewellyn, E.G. Thomas a J.S. Williams

Y Cynghorydd D.M. Cundy – Yn dirprwyo ar ran y Cynghorydd B.A.L. Roberts

Hefyd yn bresennol:

Y Cynghorydd J. Tremlett – Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:

Mrs. R. Dawson – Pennaeth y Gwasanaethau Integredig
Mr. M. Palfreman – Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol
Mr. D. Astins – Rheolwr Datblygu Strategol
Mrs. H. Bailey – Uwch-reolwr Arlwyo
Mr. M. Hughes – Ymgynghorydd Cynorthwyol

Lleoliad: Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin (10:00 – 11:55yb)

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr K. Madge, E. Morgan a B.A.L. Roberts yn ogystal â chan Mrs. Linda Williams (Cyfarwyddwr a Chomisiynydd Sirol dros Sir Gaerfyrddin, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda).

Dymunodd y Cadeirydd wellhad buan i'r Cynghorydd B.A.L. Roberts yn dilyn ei llawdriniaeth ddiweddar.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Y Cynghorydd	Eitem(au) yn y Cofnodion	Natur y Buddiant
Cynghorydd H.I. Jones	Eitem 6	Mae ei ferch yng nghyfraith yn gweithio yn y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol.

3. DATGAN CHWIP WAHARDDDEDIG

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad ynghylch chwip waharddedig.

4. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

5. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

PENDERFYNODD y Pwyllgor gymeradwyo'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn ei gyfarfod nesaf a oedd wedi'i amserlennu ar gyfer 16 Mai 2016.

6. CYDWEITHREDFA IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU: Y WYBODAETH DDIWEDDARAF

Roedd y Cyngorydd H.I. Jones wedi datgan buddiant personol sef bod ei ferch yng nghyfraith yn gweithio i'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol.

Yn dilyn cais mewn cyfarfod blaenorol yn 2015, cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ar weithgareddau a chanlyniadau gwaith Cydweithredfa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Canolbarth a Gorllewin Cymru ac fe'i hysbyswyd ynghylch y trefniadau partneriaeth rhanbarthol newydd sydd bellach wedi'u sefydlu i ateb gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Nododd yr Aelodau mai Cyngor Sir Caerfyrddin oedd yr Awdurdod Lleol Arweiniol ar gyfer y Gydweithredfa, a'i fod yn lletya uned gydgyfylltu fechan ac yn rheoli grantiau rhanbarthol.

Hysbyswyd yr Aelodau hefyd fod Rhan 9 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2016, yn ei gwneud yn ofynnol creu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) er mwyn symud trefniadau gweithio mewn partneriaeth ac integreiddio yn eu blaen. Byddai gofyn sefydlu trefniadau ar wahân ar gyfer ardal pob bwrdd iechyd, a oedd yn golygu y byddai BPRh ar gyfer Gorllewin Cymru yn cael ei sefydlu ar ôl troed Bwrdd Iechyd Hywel Dda a bod rhanbarth presennol Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cael ei ddiddymu. Roedd trefniadau cysgodol wedi'u sefydlu er na ddigwyddodd cyfarfod agoriadol BPRh Gorllewin Cymru ar 15 Ebrill 2016, fel a nodwyd yn yr adroddiad.

Trafodwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:

Cyfeiriwyd at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a gofynnwyd sut y byddai ei gofynion, ynghyd â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, oll yn cydblethu â'i gilydd. Roedd y Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol yn cydnabod y byddai cysoni polisiau a gofynion y Llywodraeth yn her ond dywedodd y byddai cryfhau'r cysylltiadau rhwng y BPRh newydd a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd yn hanfodol i gyflawni hyn. Ychwanegodd ei bod yn amlwg bod gwasanaethau presennol yn anghynaliadwy yn y tymor hir a bod y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer parhau i ailgyflunio gwasanaethau. Fodd bynnag, fel gydag unrhyw broses bontio, byddai

strategaethau presennol a newydd yn cydfodoli am gyfnod o amser a byddai rheoli hyn yn her ychwanegol. Ychwanegodd y Pennaeth Gwasanaethau Integredig mai ysgogydd arall ar gyfer y gwaith hwn oedd creu cydnerthedd cymunedol a hunanofal ochr yn ochr ag ymyriadau wedi'u targedu er mwyn osgoi derbyniadau diangen i wasanaethau iechyd.

Mynegwyd pryder hefyd y gallai materion sy'n ymwneud â chynllunio neu ailddatblygu danseilio'r cynlluniau a'r strategaethau sy'n cael eu sefydlu fel rhan o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant newydd. Nododd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig fod y fframwaith yn Sir Gaerfyrddin yn darparu ar gyfer trafodaeth gydweithredol ynghylch pwysau a meysydd twf sy'n ymwneud â datblygiadau o ran y seilwaith, a allai roi pwysau ar wasanaethau eraill megis addysg ac iechyd. Ychwanegodd fod ei swydd ar y cyd yn gyfle i gyfrannu i drafodaethau strategol o fewn y Bwrdd Iechyd ac o fewn yr Awdurdod Lleol. Roedd hi hefyd yn cwrdd ag Arweinwyr Meddygon Teulu yn rheolaidd.

Gofynnwyd sut y byddai'r BPRh yn rheoli'r broses o hyrwyddo a sefydlu cronfeydd cyfun. Nododd y Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol fod hwn yn un o'r lluo o gyfrifoldebau a roddir i'r Bwrdd newydd a bod angen i'r gwaith i hwyluso hyn gael ei symud yn ei flaen yn gyflym er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o'r cronfeydd sydd ar gael a chael y canlyniadau gorau posibl i ddefnyddwyr gwasanaethau. Roedd Sir Gaerfyrddin eisoes wedi sefydlu trefniadau Adran 33 y gellid adeiladu arnynt o fewn y cyd-destun cyfreithiol newydd. Pwysleisiodd fod angen i'r broses o gyfuno cyllidebau wneud gwahaniaeth trwy ystyried anghenion lleol a rhanbarthol, yn hytrach na digwydd dim ond am fod gan y Bwrdd y pŵer i wneud hynny. Fe wnaeth Pennaeth y Gwasanaethau Integredig atgoffa'r Pwyllgor mai Sir Gaerfyrddin oedd yr unig sir yng Nghymru â threfniadau Adran 33 wedi'u sefydlu ond nad oedd hyn wedi cael ei drosglwyddo i wasanaethau rheng flaen. Hysbysodd y Pwyllgor fod peth Cyllid Trawsnewid wedi cael ei ddefnyddio i gyflogi ymgynghorydd i ddehongli'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chyllidebau cyfun a chadarnhau beth ellid neu na ellid ei wneud. Roedd disgwyl i adroddiad gael ei gyhoeddi yn yr wythnosau nesaf a gallai ei ganfyddiadau gael eu rhannu gyda'r Pwyllgor maes o law. Fodd bynnag, fe wnaeth y Pennaeth Gwasanaethau Integredig atgoffa'r Pwyllgor nad cyllidebau cyfun oedd yr ateb i bob problem a bod angen sefydlu strwythurau llywodraethu a rheoli priodol ymlaen llaw.

Mewn ymateb i gwestiwn am aelodaeth o'r BPRhau newydd, cadarnhaodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd mai hi fyddai'r cynrychiolydd o blith aelodau etholedig ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Rhoddodd y Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol wybod i'r Pwyllgor, ynghyd ag Aelodau o Fyrddau Gweithredol yr holl siroedd perthnasol, y byddai aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth o blith gofalwyr ac yn y blaen. Roedd disgwyl y byddai BPRh Gorllewin Cymru yn cadarnhau'r aelodaeth o blith asiantaethau partner statudol mewn cyfarfod wedi'i aildrefnu ym mis Mai er y byddai angen sefydlu proses benodiadau briodol hefyd i recriwtio cynrychiolwyr o blith defnyddwyr a gofalwyr. Byddai hyn yn sicrhau y byddai unrhyw aelodau lleig yn ymwybodol o'r gofynion a'r disgwyliadau sy'n gysylltiedig â'u rolau.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y gwasanaeth PIVOT. Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig wybod i'r Pwyllgor mai gwasanaeth a ddarperir gan fudiadau'r trydydd sector ac a ariennir trwy'r Gronfa Gofal Canolradd oedd hwn i helpu i leihau derbyniadau diangen i'r ysbyty trwy ddarparu mynediad at gymorth a ddarperir gan grwpiau gwirfoddol a chymunedol. Roedd yn debyg i wasanaethau'r

fenter Twilight a'r Groes Goch a oedd yn gweithredu o ysbytai Sir Gaerfyrddin ac roedd wedi arwain at ryddhau cleifion yn gyflymach o'r ysbyty. Fodd bynnag, ychwanegodd fod y cynllun PIVOT yn wahanol i'r fenter TOCALLS yn yr ystyr ei fod yn cynnwys asesiad lefel isel gan gynrychiolwyr o'r trydydd sector yn hytrach na chan weithwyr iechyd proffesiynol cymwysedig. Roedd yn hanfodol bod arfer da fel hwn yn cael ei rannu ar draws y rhanbarth i ddiwallu anghenion unigol pob sir ac roedd Sir Gaerfyrddin yn ceisio dysgu o hyn trwy gyflogi gweithwyr gofal newydd i gryfhau'r Timau Ardal. Gallai diweddariad ar y fenter newydd hon gael ei ddarparu ar gyfer y Pwyllgor maes o law.

Cafodd y datblygiadau a'r trefniadau cydweithio a oedd yn cael eu nodi yn yr adroddiad eu croesawu er y mynegwyd pryderon na fyddai'r boblogaeth sy'n heneiddio a'r gwahanol fathau o lygredd (e.e. llygredd aer, carthffosiaeth) yn cael sylw o anghenraid gan y datblygiadau hyn. Dywedodd y Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol ei fod yn cydnabod bod y rhain yn heriau y mae'n bwysig ymateb iddynt ond y byddai gan y Bwrdd Cynllunio Rhanbarthol fynediad uniongyrchol am y tro cyntaf at y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Byddai hyn yn amhrisiadwy gan y byddai angen i'r asesiad o'r boblogaeth y mae'n ofynnol i'r BPRhau ei gynnal gyd-fynd â'r asesiad o anghenion y mae'n ofynnol i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ei gynnal. Byddai cyfethol aelodau o wasanaethau eraill i'r Bwrdd Rhanbarthol yn ôl y gofyn hefyd yn gyfle i sicrhau bod materion strategol yn cael eu trafod a bod y darlun ehangach yn cael ei ystyried.

Mewn ymateb i gwestiynau ynghylch rhannu systemau TG, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig fod gan swyddogion fynediad ar hyn o bryd at system Care First yr Awdurdod Lleol a system Myrddin y Bwrdd Iechyd, yn ogystal â system FACE y Gwasanaethau Iechyd Meddwl. Yn y dyfodol, byddai gan yr holl swyddogion fynediad at System Wybodaeth Gofal Cymunedol (CCIS) Cymru ac roedd hwn yn cael ei dreialu ar hyn o bryd gan Geredigion a Phen-y-bont ar Ogwr.

PENDERFYNWYD:

- 6.1. Derbyn yr adroddiad.
- 6.2. Y byddai diweddariadau ar gyfuno cyllidebau a mentrau o fewn y Timau Ardal yn cael eu cynnwys ym Mlaenraglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2016/17.

7. SAFONAU MAETHOL AR GYFER POBL HŶN

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar safonau maeth ar gyfer pobl hŷn, a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar gartrefi gofal a chanolfannau dydd yr Awdurdod Lleol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys trosolwg ar y gwaith a wnaed gan y Gwasanaeth Arlwygo (Yr Adran Addysg a Phlant) i gefnogi'r Adran Cymunedau yn ogystal ag atebion i'r pedwar cwestiwn penodol, a godwyd yn flaenorol gan Aelodau'r Pwyllgor.

Trafodwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:

Mewn ymateb i gwestiwn am gwmpas yr adroddiad, fe wnaeth yr Uwch-reolwr Arlwygo atgoffa'r Pwyllgor bod hyn yn ymwneud â chartrefi gofal yr Awdurdod Lleol. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig fod safonau maeth / arlwygo

mewn cartrefi gofal annibynnol yn cael eu rheoleiddio gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) er bod Tîm Comisiynu'r Awdurdod yn gweithio gyda darparwyr yn y sector annibynnol hefyd i sicrhau bod y safonau gofynnol yn cael eu cyrraedd.

Mynegwyd pryder ynghylch rôl y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yng ngweithgarwch y Gwasanaeth Arlwygo i gaffael cyflenwadau bwyd. Cyfeiriwyd at amheuon y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ynghylch diben y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a'i lwyddiant o ran sicrhau arbedion i'r Awdurdod Lleol. Dywedodd y Rheolwr Datblygu Strategol ei fod yn cydnabod pryderon y Pwyllgor a bod y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar ei hôl hi o ran sefydlu fframweithiau sy'n gysylltiedig â bwyd. Roedd yr oedi hwn wedi arwain yn ddiweddar at sefyllfa lle'r oedd contract bwyd pwysig wedi dod i ben a'r Gwasanaeth Arlwygo wedi cael ei orfodi i geisio estyniad ar y contract blaenorol. Fodd bynnag, gan fod y Cyngor Sir wedi ymrwymo i ddefnyddio'r gwasanaeth cenedlaethol, byddai'n rhaid i swyddogion weithio o fewn y canllawiau gofynnol a chydymffurfio â hwy.

Mynegwyd pryderon hefyd ei bod yn bosibl na fyddai'r Awdurdod Lleol yn gallu caffael bwyd gan gyflenwyr lleol ac y byddai gorfod defnyddio cyflenwyr pellach i ffwrdd yn cynyddu symudiad traffig o fewn y sir ac yn cynyddu llygredd aer. Nododd y Rheolwr Datblygu Strategol na fyddai caffael cyflenwadau trwy'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol o anghenraid yn golygu bod cyflenwyr lleol yn cael eu cau allan. Er enghraifft, roedd gan yr Awdurdod nifer o wahanol gontractau gyda chyflenwyr bara ac yn aml iawn roedd contractau ar gyfer rhai nwyddau'n ddibynnol ar y farchnad cyflenwyr.

Yng ngoleuni'r drafodaeth ynghylch y gwasanaeth caffael, cynigiodd y Cadeirydd fod pryderon y Pwyllgor yn cael eu hanfon ymlaen at yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau. Roedd y Pwyllgor yn cytuno â'r cynnig.

Mewn ymateb i gwestiwn am y System NUTMEG, cadarnhaodd yr Uwch-reolwr Arlwygo fod y system yn cael ei phwysoli yn ôl oedran i sicrhau bod pobl hŷn yn cael y lefel gywir o faethiad. Fe wnaeth Pennaeth y Gwasanaethau Integredig atgoffa'r Pwyllgor bod yr adroddiad hwn yn ategu'r Safonau Maeth Cymunedol ar gyfer Gwasanaethau Integredig Sir Gaerfyrddin (a gafodd eu hystyried gan y Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ar 16 Medi 2015). Ychwanegodd ei bod yn aml yn wir nad 3 phryd y dydd ar amseroedd penodedig oedd yr opsiwn gorau i lawer o bobl hŷn, ac mai mathau penodol o brydau a byrbrydau wedi'u gwasgaru ar draws y diwrnod oedd y dull gorau yn aml. Cyfeiriodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig at gynllun peilot diweddar yn Ysbyty'r Tywysog Philip yn Llanelli lle'r oedd ysgytlaethau â llawer o brotein a chawliau poeth yn cael eu rhoi i gleifion hŷn. Roedd gostyngiad sylweddol mewn cwmpadau wedi cael ei gofnodi, ynghyd ag amseroedd rhyddhau cyflymach. Roedd Cartref Gofal Llys y Bryn hefyd wedi cyflwyno cornel byrbrydau a diodydd a oedd yn cynnig y cyfle i ddefnyddwyr y gwasanaeth fwyta ac yfed trwy gydol y dydd, yn hytrach nag ar amseroedd penodedig.

Cyfeiriwyd at yr holiadur ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a gofynnwyd a oedd unrhyw awgrymiadau penodol wedi dod i law. Rhoddodd yr Uwch-reolwr Arlwygo wybod i'r Pwyllgor bod pob ymateb a gafwyd yn cael sylw unigol. Nid oedd unrhyw dueddiadau penodol ac roedd ymatebion yn ymwneud ar y cyfan â meintiau dogonau (e.e. eu bod naill ai'n rhy fawr neu'n rhy fach).

Estynnodd y Cadeirydd longyfarchiadau i'r Cogydd â Gofal yng Nghartref Gofal Y Plas a oedd wedi cyrraedd rowndiau terfynol cystadleuaeth Cogydd Gofal y Flwyddyn yn y DU 2016, a fyddai'n cael eu cynnal ar 8 Mehefin.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:

- 7.1 Derbyn yr adroddiad.
- 7.2. Cyfleu pryderon y Pwyllgor ynghylch y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau.

8. GWERTHUSO PROSIECT CRONFA GOFAL CANOLRADDOL

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg, gwerthusiad a diweddariad mewn perthynas â gwasanaethau a ariennir gan y Gronfa Gofal Canolradd, yn enwedig mewn perthynas â'r Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Trosglwyddo Gofal (TOCALs) a'r gwasanaeth Gofal Cartref Ymateb Cyflym.

Atgoffwyd y Pwyllgor fod y Gronfa Gofal Canolradd wedi'i ddyfarnu i ddechrau yn 2014/15 i ddarparu cyfle i roi cymorth i ddatblygu a phrofi modelau newydd i ddarparu gwasanaethau integredig cynaliadwy. Un o'r meini prawf ar gyfer parhad y cyllid yn 2015/16 oedd bod y prosiectau'n dangos eu heffaith a'u canlyniadau mewn perthynas â'r amcanion cychwynnol.

Trafodwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:

Gofynnwyd sut yr oedd y model eiddilwch 'blaen tŷ' yn gweithio yn Ysbyty'r Tywysog Philip yn Llanelli. Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig wybod i'r Pwyllgor bod yr Uned Mân Anafiadau a'r Uned Derbyniadau Meddygol Acíwt yn yr ysbyty'n ceisio osgoi derbyniadau trwy gynnal proses 'sgrinio o safbwynt eiddilwch' pan fo defnyddwyr gwasanaethau'n dod i'w sylw, er mwyn ysgogi asesiad geriatrig manwl a chynhwysfawr. Hyd yma, roedd y dull yn gweithio'n dda ac yn perfformio'n well na'r rhagfynegiadau cychwynnol. Mewn ymateb i ymholiad pellach ynghylch staffio yn Ysbyty Glangwili, rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig wybod i'r Pwyllgor bod 3 Geriatregydd yn y ddau ysbyty er bod un swydd wag yng Nghaerfyrddin ar hyn o bryd. Fodd bynnag, roedd yn bwysig bod yr holl glinigwyr yn sefydlu 'dull eiddilwch' ym mhob maes yn hytrach na dim ond atgyfeirio cleifion at y geriatregwyr.

Gofynnwyd a oedd digwyddiadau sy'n ymwneud â chwmpïadau'n fwy cyffredin ar rai diwrnodau o'r wythnos. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig nad oedd unrhyw ddiwrnod penodol pan oedd y rhain yn digwydd ac, yn nodweddiadol, bod 20 o gwmpïadau'n dod i sylw pob uned Damweiniau ac Achosion Brys bob dydd. Roedd hyn yn dangos pa mor bwysig oedd gwaith ataliol yn ogystal â sicrhau bod gwasanaethau'n newid o'r model traddodiadol a oedd yn golygu bod gwasanaethau'n cael eu darparu o 9-5 rhwng dydd Llun a dydd Gwener. Roedd bod â gwasanaethau ffisiotherapi a therapi galwedigaethol blaen tŷ yn ddatblygiad allweddol hefyd.

Mewn ymateb i gwestiwn am niferoedd y therapyddion galwedigaethol, cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig fod gan y gwasanaeth nifer

lawn o therapyddion, ond bod angen am fwy a bod cais am fwy o adnoddau o'r Gronfa Gofal Canolradd wrthi'n cael ei baratol i gael mwy o gymorth ffisiotherapi a therapi galwedigaethol yn y dyfodol. Roedd cyllid clwstwr meddygon teulu'n opsiwn arall hefyd i sicrhau therapyddion ychwanegol ac roedd un therapydd galwedigaethol wedi cael ei gyflogi yn ardal Taf/Teifi/Tywi a hwnnw'n gweithio o feddygfa deulu. Roedd yr ymyriad hwn wedi arwain at ostyngiad mewn amseroedd aros i weld therapydd galwedigaethol, o 3-4 wythnos.

Roedd y newidiadau i'r trefniadau derbyn a rhyddhau yn Ysbyty'r Tywysog Philip yn cael eu croesawu ond awgrymwyd fod newidiadau eraill i wasanaethau yn yr ysbyty wedi arwain at sefyllfa lle'r oedd niferoedd cynyddol o gleifion allanol yn ymweld â Glangwili yng Nghaerfyrddin, a oedd yn ei dro'n dwyn goblygiadau ar gyfer cludiant a pharcio. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig ei bod yn cydnabod bod mwy o waith i'w wneud yng Nglangwili, yn enwedig mewn perthynas â rhyddhau cleifion. Roedd disgwyl y byddai penodi nyrsys rhyddhau ychwanegol yn helpu unigolion i adael yr ysbyty yno'n fwy effeithlon. Roedd parcio ceir yn broblem barhaus a byddai pryderon y Pwyllgor yn cael eu trosglwyddo i'r swyddog perthnasol yn y Bwrdd Iechyd.

Mewn ymateb i gwestiwn am ddyfodol y Gronfa Gofal Integredig, rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig wybod i'r Pwyllgor bod swyddogion wedi cael papur briffio gan Lywodraeth Cymru a oedd yn nodi y byddai Cronfa Gofal Canolradd eleni'n darparu cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer anabledau dysgu ac ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, yn ogystal â'r cyllid cyloch ar gyfer oedolion hŷn eiddil.

Cyfeiriwyd at yr ymwybyddiaeth gyfyngedig grybwylledig o'r gwasanaeth Ymateb Cyflym ymhlith meddygon teulu a gofynnwyd a oedd hyn wedi effeithio ar atgyfeiriadau. Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig wybod i'r Pwyllgor bod y gwasanaeth wedi cael ei hyrwyddo'n eang a bod angen newid diwylliannol. Roedd atgyfeiriadau gan feddygon teulu wedi cynyddu ond roedd angen mwy o welliant.

Cyfeiriwyd at yr argymhelliad bod angen ymchwil bellach i gadarnhau bod yr holl gynulleidfaoedd targed yn cael eu cyrraedd a gofynnwyd sut yr oedd swyddogion yn bwriadu gwneud hyn. Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig wybod i'r Pwyllgor y byddai data'r cyfrifiad a chofnodion meddygon teulu yn darparu gwybodaeth gychwynnol am ddemograffi a mynychder clefydau ond bod angen cadarnhau amgylchiadau cymdeithasol a mesur o'r hyn y gall fod ar gymunedau ei angen neu ei eisiau hefyd.

Cyfeiriwyd eto at boblogaeth y sir sy'n mynd yn hŷn a gofynnwyd a oedd niferoedd y bobl hŷn sydd yn yr ysbyty dros y gaeaf i'w priodoli i eiddilwch. Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig wybod i'r Pwyllgor nad oedd y galw wedi gostwng eto ers y gaeaf a bod gwelyau ychwanegol wedi cael eu prynu mewn gwahanol gartrefi gofal i ddiwallu'r angen am welyau asesu. Ychwanegodd nad cael asesiadau oedd y broblem ond yn hytrach mai cymhlethdod yr anghenion a oedd yn cael eu hadnabod a sicrhau'r gofal cywir ar gyfer yr anghenion hynny, oedd y rheswm bod y broses asesu wedi arafu.

Roedd y Pwyllgor yn croesawu'r adroddiad a **PHENDERFYNNODD YN UNFRYDOL** ei fod yn derbyn yr adroddiad.

9. EGLURHAD AM BEIDIO A CHYFLWYNO ADRODDIADAU CRAFFU

PENDERFYNWYD nodi'r rhesymau dros beidio â chyflwyno'r adroddiadau.

10. LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 29AIN CHWEFROR, 2016

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29ain o Chwefror 2016 fel cofnod cywir.

LLOFNOD: _____ (Cadeirydd)

DYDDIAD: _____